



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

---

01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022



# Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am y cyfnod Ebrill 2021 – Mawrth 2022. Hwn yw'r ail Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 ac mae'n amlygu'r hyn yr ydym wedi'i wneud i ymgysylltu â'n cymunedau, cefnogi anghenion amrywiol ein staff, a gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn eich sefydliad.

Mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Gwasanaeth yn un ffordd o ddangos i ba raddau yr ydym yn cyflawni ein hymrwymiadau cyfreithiol ac egwyddorol i gydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar ddiwedd blwyddyn heriol arall pan welwyd llawer o weithgareddau ymgysylltu'r Gwasanaeth yn cael eu hatal neu eu cyfyngu yn sgil effaith pandemig y Coronafeirws a'r cyfyngiadau cysylltiedig a orfodwyd ar y gymdeithas yn lleol ac yn genedlaethol. Bu modd i ni barhau â'n gweithgareddau brys, rheng flaen a'n gwaith ataliol risg uchel, ond mae'r pandemig wedi cyfyngu ar waith casglu data ar gyfer rhai gweithgareddau, megis Holiadur y Bobl yr ydym yn eu Gwasanaethu a bydd hyn yn amlwg yn yr wybodaeth a'r data a gynrychiolir yn yr adran briodol o adroddiad 2021/22.

Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd, mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn gyfle eto i ni ddathlu'r cynnydd parhaus a wnaed o ran hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein sefydliad a'r cymunedau yr ydym yn falch o'u gwasanaethu. Unwaith eto, teimlaf ein bod ni, fel sefydliad, wedi parhau i symud ymlaen yn gadarnhaol yn y maes hwn, ac mae'n braf gweld bod y gwaith hwn wedi sicrhau deilliannau cadarnhaol i aelodau o'n cymunedau lleol.



**Chris Davies QFSM MBA**  
Prif Swyddog Tân

---

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar yr adroddiad hwn, a hynny o ran yr hyn sydd ynddo a'r hyn nad yw efallai'n ei wneud yn ddigon clir am y gwaith yr ydym wedi'i wneud.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os ydych am wybod mwy am y gweithgareddau sydd yn y Cynllun hwn, cysylltwch â:

**Mr Mydrian Harries**  
Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dros

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Pencadlys y Gwasanaeth, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP  
**Ffôn:** 01267 226830 | **E-bost:** m.harries@mawwfire.gov.uk

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Pwy ydym ni</b>	<b>2</b>
<b>Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau</b>	<b>4</b>
<b>Y Sefyllfa Bresennol</b>	<b>5</b>
Amcan 1	5
Amcan 2	7
Amcan 3	8
<b>Atodiadau:</b>	<b>12 - 33</b>
Data Staff – Cyffredinol	
Data Staff – yn ôl Lefel Reoli	
Data Recriwtio Staff Cymorth	
Data Recriwtio Staff Ar Alwad	
Data Dyrchafiadau	
Data Trosglwyddo	
Data Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref	
Data Ymgysylltu / Ymgynghori	
Data Ymateb i Ddigwyddiadau	

---

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg a gall hefyd fod ar gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill. Os hoffech gael copi o'r adroddiad hwn mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â [humanresources@mawwfire.gov.uk](mailto:humanresources@mawwfire.gov.uk)**

**Mae ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan, neu gellir gofyn amdanynt ar ffurf copi caled ym mha bynnag fformat sy'n ofynnol.**

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022, ac fe'i cyflwynir o dan ein gofynion adrodd statudol, a bennir gan reoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Beth y mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ei olygu i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru [GTACGC]?

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn faterion busnes allweddol i'r Gwasanaeth; a'r prif ffactorau busnes sy'n ei sbarduno i gymeradwyo strategaethau sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw:

- Rheoli risg ac enw da
- Gwella perfformiad unigolion a busnesau
- Datblygu diwylliant creadigol ac arloesol
- Diwallu anghenion ein cymunedau
- Denu, cadw a datblygu gweithwyr
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth

Mae cyfle cyfartal yn cwmpasu'r modd y mae'r Gwasanaeth nid yn unig yn darparu gwasanaethau, ond hefyd yn sicrhau mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, yn cynnwys pobl mewn prosesau gwneud penderfyniadau, ac yn sicrhau ei fod yn craffu'n barhaus ar bolisiau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth ac yn asesu eu heffaith ar gydraddoldeb yn barhaus, a hynny er mwyn bod yn sefydliad sy'n ymdrechu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn unrhyw grŵp/grwpiau neu unigolyn.





# PWY YDYM NI

Rydym yn cynnwys y 6 Awdurdod Unedol canlynol



**Powys**



**1300**  
o Staff



Yn cwmpasu  
**4,500**  
o filltiroedd sgwâr



**40,195**  
o safleoedd annomestig



oddeutu  
**432,791**  
o aelwydydd



**913,698**  
o bobl

1 Ebrill 2021-31 Mawrth 2022



Atebwyd  
**25,816**  
o alwadau brys



Mynychwyd  
**456**  
o alwadau i danau  
damweiniol  
yn y cartref



Ymatebwyd i  
**11,875**  
o ddigwyddiadau



Mynychwyd  
**103**  
o danau cerbyd bwriadol



**3,303**  
o danau



**3,479**  
o achosion brys  
heblaw tanau



**4,907**  
o alwadau  
diangen



Mynychwyd  
**693**  
o wrthdrawiadau traffig ffyrdd

Ile'r oedd angen rhyddhau  
**84**  
o bobl

**240**  
o alwadau ffug



(mynychwyd 130, ni fynychwyd 110  
y nodwyd eu bod yn ffug gan y  
ganolfan reoli)

**1046**  
o ymweliadau  
ag ysgolion

Ymgysylltwyd â  
**32,315**  
o bobl ifanc

Cynhaliwyd  
**8,942**  
o Archwiliadau  
Diogelwch yn y Cartref

# Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth

Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli wardiau unigol o fewn 6 Awdurdod Unedol cyfansoddol, sy'n ffurfio ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yr Awdurdodau Unedol yw:



Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, a gwasanaeth ymateb brys ar gyfer ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r sefydliad yn cyflogi tua 1,300 o aelodau staff o fewn y categorïau cyflogaeth amrywiol h.y. Staff Gweithredol, Rheoli a Chefnogi, ac mae'n cwmpasu tua 4,500 o filltiroedd sgwâr – bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu ystod eang o gymunedau o fewn ei hardaloedd arfordirol, trefol a gwledig.

## Rôl yr Awdurdod Tân

Rôl Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân, yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, ac yn arbennig:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
- Gorchymyn Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 fel y'i diwygiwyd, a sefydlodd ddarpariaeth Awdurdod Tân Cyfunol ar gyfer ardaloedd sirol newydd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys a Dinas a Sir Abertawe
- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfuno y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu delio â galwadau am gymorth mewn modd effeithiol, a hynny mewn achos o dân neu argyfwng arall.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu pobl, eiddo a'r amgylchedd rhag tân ac argyfyngau eraill, a hefyd i ddarparu gwasanaethau dyngarol eraill. Cyflawnir hyn trwy ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gymuned a'i chynnwys yn y gwaith, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth ag eraill i greu ethos cymunedau mwy diogel, a darparu gwasanaeth gwerth am arian i'r rhai sy'n byw neu'n gweithio yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, neu sy'n ymweld â'r ardal.

Rôl yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau ataliol rhagweithiol, a gwasanaethau tân ac achub ymatebol i bobl y Canolbarth a'r Gorllewin mewn ffordd agored, dryloyw a chosteffeithiol; gan weithredu er budd pennaf Canolbarth a Gorllewin Cymru a'u dinasyddion. Wrth gyflawni ei rôl, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ceisio gweithredu er lles ei holl awdurdodau cyfansoddol a'u dinasyddion, ac, wrth wneud hynny, mae'n rhoi'r lles ar y cyd uwchlaw unigolion neu fuddiannau grwpiau penodol, yn unol ag egwyddorion gorau llywodraethu lleol democrataidd. Ar ben hynny mae gofyn bod yr Awdurdod yn gwneud y canlynol:

- Cytuno ar y Cynlluniau Gwella Blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyfraniad y cynghorau cyfansoddol.
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a delio ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Arweinir Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Prif Swyddog Tân, sydd â chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros y gwasanaeth, ac sy'n ei reoli'n gorfforaethol. Ef hefyd yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.





ein gweledigaeth:

# **Bod yn Arweinydd Byd ym maes Ymateb i Argyfwng a Diogelwch Cymunedol**

ein cenhadaeth:

# **Ymgysylltu, cysylltu, datblygu ac ysbrydoli pobl i ddarparu gwasanaeth rhagorol**

ein gwerthoedd:

**GWNEUD  
Y PETH  
IAWN**

**TRIN  
POBL Â  
PHARCH**

**PERFFORMIO’N  
RHAGOROL**

oddeutu 100 o bobl

gan gadw'r holl gymarebau dynol presennol fel y maent, byddai'r sefyllfa fel a ganlyn:




(23 yn dewis peidio â dweud)



16-24  
oed






25-44  
oed



45-64  
oed



65+ oed



# Y Sefyllfa Bresennol

## Dyletswyddau Penodol Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Mae'r adran hon yn dangos yr hyn yr ydym wedi ei wneud, a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, mewn perthynas â Dyletswyddau Penodol Cymru; ac mae'n ategu, yn hytrach na dyblygu, yr wybodaeth yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS).

## Amcan 1

---

**Archwilio pob agwedd ar gylchred bywyd gweithwyr, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu denu, penodi, dyrchafu a chadw gweithlu sydd mor amrywiol â phosibl.**

### Rheswm

Bydd sicrhau proffil gweithlu amrywiol yn galluogi'r Gwasanaeth i wella'r gwasanaeth a ddarperir ymhellach a bod yn fwy ymatebol i anghenion cymunedau lleol.

### Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Datblygu holiadur i'w roi i'r rhai sy'n tynnu'n ôl o'r broses recriwtio i ofyn am adborth ar eu rhesymau dros dynnu'n ôl er mwyn llywio gweithgareddau denu yn y dyfodol.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd megis 'Mwy na Gwasanaeth Tân' a gynlluniwyd i amlygu a hyrwyddo gweithgareddau nad ydynt yn rhan o ganfyddiad pobl o wasanaeth tân ac achub traddodiadol.
- Ymgysylltu â Grŵp Cynhwysiant a Gweithlu y Gwasanaeth i lywio deunyddiau marchnata a hyrwyddo sy'n adlewyrchu ymrwymiad y Gwasanaeth i amrywiaeth a chynhwysiant.
- Hyrwyddo'r defnydd o anogwyr a mentoriaid yn y Gwasanaeth yn sgil dyrannu arweinwyr iau ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn newydd sy'n cael eu recriwtio, er mwyn cynyddu'r cymorth sydd ar gael.
- Cyflwyno holiadur wrth dderbyn pobl i'r Gwasanaeth i asesu anghenion yr unigolyn a galluogi darparu cymorth perthnasol yn y gweithle, gan gyfrannu at ddylunio a gweithredu datblygiad a dilyniant mewnol.
- Cymryd rhan mewn ymgyrch Dim Hiliaeth a oedd yn cynnwys aelodau'r Gwasanaeth o gymunedau amrywiol er mwyn adlewyrchu eu profiadau.
- Cydweithio â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân i ddylunio strategaeth sy'n annog mwy o amrywiaeth trwy recriwtio a datblygu.

- Gweithio gyda Phrifysgolion a Cholegau i edrych ar gyfleoedd i ddarparu cymorth ag anghenion dysgu gweithwyr pan fo angen.
- Datblygu ein rhaglenni arweinyddiaeth i oruchwylwyr a rheolwyr canol er mwyn sicrhau bod y mynychwyr yn cael eu paratoi i reoli mewn amgylchedd modern gyda ffocws penodol ar y sgiliau sy'n ofynnol i reoli timau amrywiol.
- Ymgysylltu'n weithredol â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ystyried yr effaith ddynol wrth ganfod offer newydd a Chyfarpar Diogelu Personol.
- Adolygu sut yr ydym yn portreadu rôl y Diffoddwr Tân yn allanol ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a sicrhau ein bod ni, i'r graddau y bydd hynny'n bosibl, yn defnyddio amrywiaeth o ddelweddau sy'n adlewyrchu gwirioneddau'r rôl yn yr oes fodern, yn ogystal â defnyddio lluniau o'n staff cyfredol o bob rhan o'r sefydliad ac o bob sector yn y gymdeithas.
- Dechrau rhaglen rheoli talent ac adnabod unigolion posibl i gymryd rhan ynnddi, gan alluogi recriwtiaid newydd i ehangu a datblygu yn eu rolau.
- Hyrwyddo seremoni cwblhau hyfforddiant y Gwasanaeth er mwyn manteisio ar gyfleoedd i ddangos bod y Gwasanaeth yn agored i unrhyw rai sy'n gallu bodloni'r safonau gofynnol.
- Defnyddio'r Systemau Dysgu Gweithredol i ganiatáu i'r gweithlu roi adborth ar ddeilliannau dysgu a gwelliannau posibl.
- Ymgysylltu â sefydliadau trydydd parti er mwyn rhoi cyfleoedd i unigolion sicrhau cyflogaeth trwy Brentisiaethau a phrofiad gwaith.
- Datblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Recriwtio a Chadw Staff; dod â gwahanol adrannau ledled y Gwasanaeth at ei gilydd i feincnodi'r Gwasanaeth ac amlygu meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.
- Datblygu Sesiynau Blasu, gan roi cyfle i'r rhai sydd am ymuno â'r Gwasanaeth Tân gael gwybod mwy am y rôl, penderfynu ar feysydd i'w datblygu cyn recriwtio ac agor llinellau cyfathrebu â'r gymuned.

## **Yr hyn y bwriadwn ei wneud o hyd**

- Sicrhau ein bod yn estyn allan at y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ehangach, fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio gwirfoddolwyr yn y dyfodol.
- Parhau i ehangu ein rhaglen o ddigwyddiadau gweithredu cadarnhaol wedi'u hanelu at grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd o fewn ein gweithlu gweithredol.
- Parhau i gefnogi'r Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a symud trwy'r lefelau.
- Parhau i weithio tuag at leihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, fel yr amlinellir yn y cynllun gweithredu a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

## Amcan 2

---

### **Dylunio a darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb yn ein cymunedau.**

#### **Rheswm**

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ymdrin â diogelwch cymunedol mewn modd cyfannol er mwyn gwella iechyd a lles dinasyddion. Mae targed ein gwaith ataliol yn seiliedig, nid yn unig ar gyfres gydnabyddedig o dybiaethau o ran pa grwpiau yn ein cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf, ond hefyd ar ymgysylltu â chymunedau er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu er mwyn gallu targedu ein hadnoddau a mireinio ein gwasanaethau yn unol â hynny.

#### **Yr hyn yr ydym wedi'i wneud**

- Gweithio gyda'n partneriaid iechyd i nodi'r rhai sy'n wynebu mwy o risg yn y gymuned ac adolygu'r strategaeth dargedu lle bo angen.
- Sicrhau bod yr ymyriadau diogelwch yn y cartref yn parhau i gael eu darparu mewn nifer o ieithoedd ar gyfer unigolion sy'n wynebu risg. Pan fydd angen cyngor penodol mewn ieithoedd neu gyfryngau gwahanol, mae gennym fynediad at gyfieithwyr a dehonglwyr, gan gynnig Iaith Arwyddion Prydain yn ôl y gofyn.
- Mae'r Tîm Troseddau a Chanlyniadau wedi cael hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain ac wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer y tîm yn seiliedig ar gyflwyno negeseuon diogelwch.
- Darparu hyfforddiant ynghylch cyfathrebu â phobl sydd â nam ar eu clyw.
- Defnyddio staff sydd â sgiliau mewn sawl iaith i gwblhau ymyriadau diogelwch yn y cartref ar gyfer unigolion sy'n wynebu risg fawr mewn cymunedau penodol lle gallai fod rhwystrau iaith fel arall.
- Dechrau'r gwaith o ddiweddarau ein deunyddiau ymgysylltu ag ysgolion er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn rhyngweithiol, yn briodol ac yn dal i fod yn addas ar gyfer pob sector o'r gymdeithas.
- Parhau i ddarparu ein rhaglenni ysgol trwy dull cyfunol gan ddarparu ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Mabwysiadu arweiniad strategol porth gwe Stay Wise Cymru a gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r prosiect hwn.
- Ystyried yr wybodaeth a ddarperir fel rhan o'n gweithgareddau Diogelwch Tân i Fusnesau ac ystyried sut y gellid ei ddarparu'n fwy eang a hwylus i'r rhai sydd am ei chael.
- Ystyried sut y gall Diogelwch Tân i Fusnesau gefnogi busnesau i gyflawni safonau boddhaol o ran diogelwch tân yn ystod pandemig Covid.
- Cynyddu nifer yr ymyriadau ers cyfnod Covid yn dilyn ailgyflwyno adnoddau ymateb.
- Darparu llwybr datblygu i'w dilyn gan yr holl bersonél sy'n cynnwys gweithgareddau datblygu a ddyluniwyd i gefnogi rolau presennol a gweithgareddau datblygu pellach ar gyfer rolau sy'n newid.

## What we still intend to do

- Blaenoriaethu ein gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau a pharhau i gasglu gwybodaeth am y bobl rydym yn eu gwasanaethu er mwyn i ni allu adolygu a diwygio ein strategaeth dargedu yn ôl yr angen.
- Parhau i ddatblygu model cyflwyno Diogel ac Iach i sicrhau ein bod yn targedu negeseuon sy'n mynd i'r afael â'r peryglon a nodir.
- Sefydlu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol er mwyn sicrhau bod ein gwaith cynllunio yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau

## Amcan 3

---

### **Sicrhau bod ein gwybodaeth a'n gwasanaethau yn gwbl hygyrch, a hynny i'n staff a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.**

#### Rheswm

Fel cyflogwr cyfrifol, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod ei wybodaeth a'i wasanaethau yn hygyrch i bawb sydd am eu cael.

#### What we did

- Rhoi holl argymhellion yr Archwiliad o Hygyrchedd gwefan y Gwasanaeth ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion deddfwriaethol ynghyd â gwella cynwysoldeb.
- Cynhyrchu a chyhoeddi ystod o negeseuon rhagweithiol sy'n caniatáu i'r Gwasanaeth gyflwyno negeseuon ac ymyriadau allweddol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf.
- Parhau i gefnogi ymgyrchoedd trwy lwyfannau'r cyfryngau traddodiadol trwy ymgysylltu â'r radio a'r cyfryngau print.
- Edrych ymhellach ar y defnydd o gyfleuster tecstio ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw fel rhan o'r ddarpariaeth ateb galwadau brys, a fydd hefyd yn cefnogi oedolion agored i niwed a dioddefwyr trais domestig trwy ddefnyddio'r rhif galwadau tawel.
- Datblygu'r gwasanaeth SMS Brys sy'n rhoi ffordd arall o gysylltu â'r Awdurdodau Brys i bobl sy'n methu defnyddio gwasanaethau llais.
- Parhau i gynhyrchu fersiynau hawdd eu deall o ddogfennau allweddol, gan gynnwys ein Cynlluniau Corfforaethol ac ystyried cynnwys y taflenni diogelwch cymunedol trwy'r Grŵp Diogel ac Iach Cymru Gyfan er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu deall.
- Parhau i gefnogi Grŵp Cymru Gyfan Diogelwch yn y Cartref sy'n gofyn am ddatblygu gwybodaeth ddiogelwch ddiwygiedig gan ystyried y gwersi a ddysgwyd yn sgil Pandemig y Coronafeirws, ac ystyried y fformat gorau ar gyfer cynhyrchu'r wybodaeth hon, gan gynnwys fersiynau hawdd eu deall.

- Hyfforddi Gwirfoddolwyr y Gwasanaeth i gefnogi gwaith Cymunedau Digidol Cymru er mwyn dod â sgiliau digidol i'r rhai yn y gymuned sydd ag angen cymorth.

## Yr hyn y bwriadwn ei wneud o hyd

- Parhau i ddatblygu ein hymwybyddiaeth o'r manau sydd wedi'u hallgáu rhag technoleg ddigidol yn ein hardal er mwyn sicrhau bod ein gwaith ataliol yn cyrraedd y manau hyn a sicrhau bod ein negeseuon ar gael mewn fformatau sy'n bodloni anghenion y cymunedau hynny.



**All data to be finalised and included prior to publication April 2022****DATA STAFF** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	211
Gwryw	1061
<b>Cyfanswm</b>	<b>1272</b>

<b>Anabledd wedi'i Ddatgan (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	6
Gwryw	37
<b>Cyfanswm</b>	<b>43</b>

<b>Oed (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
16-24	8	48
25-34	64	271
35-44	58	337
45-54	51	312
55-64	27	90
65+	3	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>1061</b>

<b>Hil / Ethnigrwydd (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Tsieineaidd	0	1
Gwyn ac Asiaidd	0	1
Affricanaidd	0	1
Gwyn a Du Caribiaidd	0	2
Bangladeshaidd	1	1
Indiaidd	0	1
Gwyn Prydeinig	208	1040
Gwyn Arall	0	8
Du Arall	0	1
Cymysg Arall	0	4
Dewis peidio â dweud	2	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>1061</b>



Crefydd neu Gred (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Christian	77	429
Islam	0	2
Buddhist	0	2
Sikh	0	0
Other	2	5
None	77	374
Prefer Not to Say	55	249
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>1061</b>

Statws Priodasol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Sengl	95	461
Priod	91	517
Partneriaeth	7	20
Wedi Ysgaru	12	43
Gweddw	2	1
Partneriaeth Sifil	0	5
Wedi Gwahanu	0	7
Arall	3	2
Dewis Peidio â Dweud	1	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>1061</b>

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ydy	179	880
Nac ydy	0	0
Dewis Peidio â Dweud	32	181
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>1061</b>

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Yes	13	0
No	198	1061
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>1061</b>

Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Deurywiol	5	11
Hoyw / Lesbiaidd	3	2
Heterorywiol	163	820
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	40	228
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>1061</b>

**DATA STAFF yn ôl Lefel Reoli (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)**

Rhywedd		Rheolwr Ardal [+]	Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr Grŵp [7-15]	Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa [4-6]	Diffoddwr Tân [1-3]
<b>Benyw</b>		1	41	78	91
<b>Gwryw</b>		8	99	410	544
	<b>Cyfanswm</b>	<b>9</b>	<b>140</b>	<b>488</b>	<b>635</b>
<b>System Ddyletswydd</b>					
<b>Amser Cyflawn</b>	Benyw	1	6	12	20
	Gwryw	6	62	147	139
	<b>Cyfanswm</b>	<b>7</b>	<b>68</b>	<b>159</b>	<b>159</b>
<b>Rheolaeth</b>					
	Benyw	0	1	6	6
	Gwryw	0	1	3	3
	<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>2</b>	<b>9</b>	<b>9</b>
<b>Cymorth</b>					
	Benyw	0	34	56	25
	Gwryw	2	36	43	7
	<b>Cyfanswm</b>	<b>2</b>	<b>70</b>	<b>99</b>	<b>32</b>
<b>Ar Alwad</b>					
	Benyw	0	0	4	40
	Gwryw	0	0	217	395
	<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>221</b>	<b>435</b>



**RECRIWTIO STAFF AMSER CYFLAWN** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

Rhywedd	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
Benyw	245	7
Gwryw	1428	34
Dewis Peidio â Dweud	31	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

Anabledd Wedi'i Ddatgan	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
Oes	40	1
Nac oes	1615	38
Dewis Peidio â Dweud	49	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

Oed	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
O dan 18	14	0
18-24	464	14
25-40	1102	24
41-59	119	3
Dewis Peidio â Dweud	5	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

Hil / Ethnigrwydd	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
Du Affricanaidd	5	0
Du Caribiaidd	3	0
Du Arall	0	0
Asiaidd Bangladeshaidd	2	0
Asiaidd Pacistanaidd	0	0
Asiaidd Indiaidd	0	0
Asiaidd Arall	0	0
Prydeinig	387	12
Tsieineaidd	1	0
Ewropeaidd	7	0
Teithiwr	1	0
Cymysg (Du/Gwyn)	16	0
Cymysg (Asiaidd/Du)	0	0
Cymysg (Asiaidd/Gwyn)	7	0
Cymysg Arall	10	1
Gwyn	1131	26
Dewis Peidio â Dweud	130	2
Arall	4	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

Crefydd neu Gred	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
Crefydd neu Gred	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
Islam	4	0
Buddhist	10	0
Hinduism	2	0
Judaism	2	0
Other	12	1
None	1063	23
Dewis Peidio â Dweud	137	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
Ydy	1623	39
Nac ydy	1	0
Dewis Peidio â Dweud	80	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

Cyfeiriadedd Rhywiol	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 20/21
Deurywiol	104	4
Hoyw / Lesbiaidd	60	1
Heterorywiol	1423	29
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	117	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

Sgiliau Iaith Gymraeg	Wedi Cwblhau Cam 1	Appointed 20/21
Dysgwr	392	8
Canolradd	172	4
Rhugl	292	6
Dim	827	21
Dewis Peidio â Dweud	21	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>1704</b>	<b>41</b>

**DATA AMSER CYFLAWN - YMADAWYR** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd (Gorffen Cyflogaeth)</b>	
Benyw	2
Gwryw	32

<b>Anabledd (Wedi'i Ddatgan) (Gorffen Cyflogaeth)</b>	
Benyw	0
Gwryw	1

<b>Oed (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
16-24	0	0
25-34	0	0
35-44	0	0
45-54	0	12
55-64	2	19
65+	0	1

<b>Hil/Ethnigrwydd (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	2	32
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	0

<b>Crefydd neu Gred (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Cristnogaeth	1	16
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	0	10
Dewis Peidio â Dweud	1	6

<b>Statws Priodasol (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Sengl	0	7
Priod	1	23
Wedi Ysgaru	1	2
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi Gwahanu	0	0
Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	0

<b>Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ydy	2	27
Nac ydy	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	5

<b>Cyfeiriadedd Rhywiol (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiaidd	0	0
Heterorywiol	1	26
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	1	6

<b>Gorffen Cyflogaeth</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ymddeoliad	1	13
Marwolaeth	0	0
Afiechyd	0	2
Ymddiswyddo	1	0
Diswyddo	0	0
Terfynu Contract	0	0
Trosoglwyddo i Wasanaeth Tân Arall	0	0
Heb Ddatgelu	0	17

**RECRIWTIO STAFF AR ALWAD** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	14
Gwryw	57
<b>Cyfanswm</b>	<b>71</b>

<b>Anabledd wedi'i Ddatgan (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	1
Gwryw	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>2</b>

<b>Oed (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
16-24	3	16
25-34	9	22
35-44	1	15
45-54	1	4
55-64	0	0
65+	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	<b>57</b>

<b>Hil / Ethnigrwydd (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	1
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	14	56
Gwyn Arall	0	0
Cymysg Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	<b>57</b>

<b>Crefydd neu Gred (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Cristnogaeth	3	17
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	11	35
Dewis Peidio â Dweud	0	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	<b>57</b>



Statws Priodasol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Sengl	11	34
Priod	1	11
Partneriaeth	1	5
Wedi Ysgaru	0	2
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	1
Wedi Gwahanu	0	0
Arall	1	3
Dewis Peidio â Dweud	0	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	<b>57</b>

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ydy	13	56
Nac ydy	0	0
Dewis Peidio â Dweud	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	<b>57</b>

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ie	0	N/A
Na	14	N/A
Dewis Peidio â Dweud	0	N/A
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	<b>N/A</b>

Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Deurywiol	0	1
Hoyw / Lesbiaidd	1	0
Heterorywiol	12	50
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	1	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>14</b>	<b>57</b>

**STAFF AR ALWAD - YMADAWYR** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd (Gorffen Cyflogaeth)</b>	
Benyw	3
Gwryw	64

<b>Anabled (Wedi'i Ddatgan) (Gorffen Cyflogaeth)</b>	
Benyw	0
Gwryw	2

<b>Oed (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
16-24	0	12
25-34	1	20
35-44	2	8
45-54	0	17
55-64	0	5
65+	0	2

<b>Hil/Ethnigrwydd (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Tsieineidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	1
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	3	63
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	0

<b>Crefydd neu Gred (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Cristnogaeth	1	24
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	2	30
Dewis Peidio â Dweud	0	10

<b>Statws Priodasol (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Sengl	2	30
Priod	1	26
Wedi Ysgaru	0	4
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	3
Wedi Gwahanu	0	0
Arall	0	1
Dewis Peidio â Dweud	0	0

<b>Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ydy	3	59
Nac ydy	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	5

<b>Cyfeiriadedd Rhywiol (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiaidd	0	0
Heterorywiol	3	54
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	10

<b>Gorffen Cyflogaeth</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ymddeoliad	0	3
Marwolaeth	0	0
Afiechyd	0	0
Ymddiswyddo	2	39
Diswyddo	0	3
Terfynu Contract	1	1
Trosglwyddo i Wasanaeth Tân Arall	0	1
Heb Ddatgelu	0	17

**RECRIWTIO STAFF CYMORTH** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Nodweddion</b>	<b>Cyfanswm y Ceisiadau</b>	<b>Ceisiadau Llwyddiannus</b>
Gwryw	24	7
Benyw	10	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

<b>Anabledd (Wedi'i Ddatgan)</b>	<b>Cyfanswm y Ceisiadau</b>	<b>Ceisiadau Llwyddiannus</b>
Wedi Cofrestru'n Anabl	0	0
Heb Gofrestru'n Anabl	33	6
Dewis Peidio â Dweud	1	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

<b>Oed</b>	<b>Cyfanswm y Ceisiadau</b>	<b>Ceisiadau Llwyddiannus</b>
O dan 18	0	0
18-24	2	0
25-40	19	4
41-59	5	2
60+	2	0
Dewis Peidio â Dweud	6	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

<b>Hil/Ethnigrwydd</b>	<b>Cyfanswm y Ceisiadau</b>	<b>Ceisiadau Llwyddiannus</b>
Lleiafrif Ethnig	0	0
Gwyn	34	6
Dewis Peidio â Dweud	0	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

<b>Crefydd neu Gred</b>	<b>Cyfanswm y Ceisiadau</b>	<b>Ceisiadau Llwyddiannus</b>
Catholig	0	0
Cristion	2	0
Hindŵaidd	0	0
Mwslim	0	0
Agnostig	0	0
Pagan	0	0
Methodist	0	0
Dim	1	3
Dewis Peidio â Dweud	31	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

Statws Priodasol	Cyfanswm y Ceisiadau	Ceisiadau Llwyddiannus
Sengl	11	2
Priod	13	4
Wedi Gwahanu	0	0
Wedi Ysgaru	1	0
Partneriaeth Sifil	3	0
Arall	3	0
Dewis Peidio â Dweud	3	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm y Ceisiadau	Ceisiadau Llwyddiannus
Deurywiol	2	0
Hoyw	2	0
Heterorywiol	27	4
Lesbiaidd	0	0
Dewis Peidio â Dweud	3	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

Iaith Gymraeg	Cyfanswm y Ceisiadau	Ceisiadau Llwyddiannus
Cymraeg Lefel 1	11	1
Cymraeg Lefel 2	12	1
Cymraeg Lefel 3	1	0
Cymraeg Lefel 4	0	0
Cymraeg Lefel 5	8	2
Dewis Peidio â Dweud	2	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>34</b>	<b>9</b>

**STAFF CYMORTH - YMADAWYR** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd (Gorffen Cyflogaeth)</b>	
Benyw	11
Gwryw	12

<b>Anabled (Wedi'i ddatgan) (Gorffen Cyflogaeth)</b>	
Benyw	0
Gwryw	0

<b>Oed (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
16-24	0	0
25-34	2	2
35-44	3	0
45-54	1	2
55-64	1	5
65+	4	1

<b>Hil/Ethnigrwydd (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Tsineiaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	1
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	11	11
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	0

<b>Crefydd neu Gred (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Cristnogaeth	2	2
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	4	3
Dewis Peidio â Dweud	5	7

<b>Statws Priodasol (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Sengl	2	3
Priod	6	7
Wedi Ysgaru	2	1
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	1
Wedi Gwahanu	0	0
Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	1	0

<b>Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ydy	9	6
Nac ydy	0	0
Dewis Peidio â Dweud	2	6

<b>Cyfeiriadedd Rhywiol (Gorffen Cyflogaeth)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiaidd	0	1
Heterorywiol	7	9
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	4	2

<b>Gorffen Cyflogaeth</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ymddeoliad	3	3
Marwolaeth	0	0
Afiechyd	0	0
Ymddiswyddo	5	4
Diswyddo	0	1
Terfynu Contract	0	0
Heb Ddatgelu	3	4

**DATA DYRCHAFIADAU** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	15
Gwryw	85

<b>Anabledd Wedi'i Ddatgan (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	0
Gwryw	3

<b>Oed (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
16-24	0	1
25-34	2	10
35-44	5	34
45-54	7	36
55-64	1	4
65+	0	0

<b>Hil / Ethnigrwydd (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	15	83
Gwyn Arall	0	2
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	0

<b>Crefydd neu Gred (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Cristnogaeth	2	25
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	1	2
Dim	5	28
Dewis Peidio â Dweud	7	30



<b>Statws Priodasol (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Sengl	6	22
Priod	6	59
Partneriaeth	0	0
Wedi Ysgaru	1	0
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi Gwahanu	0	3
Arall	1	0
Dewis Peidio â Dweud	1	1

<b>Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ydy	11	56
Nac ydy	0	0
Dewis Peidio â Dweud	4	29

<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ie	0	N/A
Na	15	N/A
Dewis Peidio â Dweud	0	N/A

<b>Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiaidd	0	0
Heterorywiol	13	62
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	2	23

**DATA TROSGLWYDDO GWEITHWYR** (01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	7
Gwryw	27

<b>Anabledd Wedi'i Ddatgan (Staff Cyfredol)</b>	
Benyw	1
Gwryw	0

<b>Oed (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
16-24	0	0
25-34	1	1
35-44	2	9
45-54	5	17
55-64	0	0
65+	0	0

<b>Hil / Ethnigrwydd (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	7	26
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Dewis Peidio â Dweud	0	1

<b>Crefydd neu Gred (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Cristnogaeth	3	9
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	1
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	3	7
Dewis Peidio â Dweud	1	10

<b>Statws Priodasol (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Sengl	3	4
Priod	3	19
Wedi Ysgaru	1	2
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi Gwahanu	0	0
Arall	0	1
Dewis Peidio â Dweud	0	1

<b>Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ydy	6	18
Nac ydy	0	0
Dewis Peidio â Dweud	1	9

<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Ie	0	N/A
Na	7	N/A
Dewis Peidio â Dweud	0	N/A

<b>Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Cyfredol)</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiaidd	0	0
Heterorywiol	5	19
Trawsryweddol	0	0
Dewis Peidio â Dweud	2	8

## Data Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

(01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

Bydd y casglu'n ailddechrau ym mis Ebrill 2022

HFSC	TOTAL
65 or over?	
Adequate Accommodation? NO	
Alcohol or Drugs?	
Arson against Property?	
Assistance to Escape?	
Hearing Problem?	
Living Alone?	
Mental Health Issues?	
Mobility Problem?	
Other Risk Factors?	
Oxygen User?	
Prescribed Drugs?	
Previous Fires?	
Sight Problem?	
Single Parent?	
Smoking in Property?	
Advice Understood? NO	
Unsafe Cooking Practices?	
<b>Total HFSC's</b>	

## Data a Gasglwyd trwy System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth

(01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022)

<b>Rhywedd</b>	
Benyw	686
Gwryw	828
Anhysbys	11
Heb nodi	1
<b>Cyfanswm Cyffredinol</b>	<b>1526</b>

<b>Oed y Dioddefwr</b>	
<16	129
17 - 25	139
26 - 40	157
41 - 55	130
56 - 70	179
70 +	344
Oed anhysbys	448
<b>Cyfanswm Cyffredinol</b>	<b>1526</b>

<b>Ethnigrwydd</b>	
Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig - Bangladeshaidd	1
Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig - Indiaidd	5
Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig - Asiaidd Arall	1
Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig - Pacistanaidd	3
Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd	1
Du neu Ddu Prydeinig - Caribiaidd	3
Du neu Ddu Prydeinig - Du Arall	7
Tsieineaidd	3
Cymysg - Cymysg Arall	2
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	2
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	2
Anhysbys/heb nodi	123
Gwyn - Prydeinig	1357
Gwyn - Gwyddelig	3
Gwyn - Gwyn Arall	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>1528</b>

# ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

01 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

## Mwy o Wybodaeth

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg – byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith yn syth. Rydym yn croesawu galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am feysydd a adroddir yn y ddogfen hon. Yn adran Cynlluniau a Pherfformiad ein gwefan cewch wybodaeth am: -

- Gynlluniau Corfforaethol
- Cynlluniau Gwella Blynyddol
- Adroddiadau Ymgynghori
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cymru
- Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan

Rydym yn croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol.

I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan [www.tancgc.gov.uk](http://www.tancgc.gov.uk), ein ffonio ar **0370 6060699** neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad yma: Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.

Fel arall, gallwch anfon e-bost atom yn [mail@mawwfire.gov.uk](mailto:mail@mawwfire.gov.uk)

### Alternative Versions

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys sain, cysylltwch â ni ar: **0370 6060699** neu e-bostiwch: [mail@mawwfire.gov.uk](mailto:mail@mawwfire.gov.uk)



HOFFI DILYN RHANNU  
     
LIKE FOLLOW SHARE

Ein Negeseuon  
Diogelwch  
Our Safety  
Messages

Adnoddau Dynol  
Human Resources